

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn berthnasol i
Flwyddyn Academaidd 2026/27



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Diben	3
	2.1 Aliniad â <i>Datganiad Polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru 2017</i>	3
	2.2 Aliniad â <i>Datganiad o Flaenoriaethau Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Arloesi (2024)</i>	3
	2.3 Gweledigaeth Medr ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned	4
3.	Trosolwg o'r Ddarpariaeth	4
4.	Cymhwysra dysgwyr	5
5.	Cynnwys y rhaglen.....	6
6.	Gofynion cyflwyno data	7
7.	Monitro ac archwilio	8
	7.1 Dull monitro.....	8
	7.2 Cydymffurfio â manyleb y rhaglen	8
	7.3 Deilliannau dysgu.....	8
8.	Manylion cyswllt	8
9.	Atodiadau.....	9
	A. Amgylchiadau eithriadol i ddysgwyr 16-18 oed	9
	B. Codau Cyfeiriadur Rhaglen.....	11
	C. Canllawiau ar Ddyrannu'r Ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i Feysydd Pwnc Sector (SSAs).....	13
	D. Setiau Data LLWR	24

1. Cyflwyniad

Mae'r fanyleb hon yn egluro sut y bydd Medr yn cefnogi ac yn cyllido'r ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) ledled Cymru, yn unol â'r ddwy ddogfen ganlynol:

- y [Datganiad Polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru 2017](#), sy'n rhoi pwyslais ar addysg oedolion o ansawdd uchel, ymgysylltiad cymdeithasol, sgiliau hanfodol a bodloni anghenion lleol; a'r
- [Datganiad o Flaenoriaethau Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Arloesi 2024](#), sy'n gofyn am ddysgu hyblyg, ehangu cyfranogiad, system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a sector trydyddol sy'n fwy teg.

Mae'n amlinellu nodau ac amcanion darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru, y dysgwyr y mae'n anelu i'w cynorthwyo, a'r disgwyliadau o ran cyflawni'n weithredol.

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i bob darparydd¹ a'u partneriaid sy'n darparu addysg i oedolion yn y gymuned a gyllidir gan Medr, a rhaid iddynt fodloni'r safonau a'r amodau a sefydlwyd o fewn fframwaith rheoleiddio esblygol Medr, gan gynnwys *Telerau ac Amodau'r Grant*, *Amodau Cofrestru*, *Y Fframwaith Ansawdd*, a'r *Cod Ymgysylltu â Dysgwyr*.

2. Diben

2.1 Aliniad â *Datganiad Polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru 2017*

Mae polisi 2017 yn amlinellu:

- dysgu oedolion fel cyfrwng i ddatblygu sgiliau, iechyd, llesiant ac integreiddio cymdeithasol
- ffocws ar sgiliau sylfaenol, yn enwedig llythrennedd, rhifedd a sgiliau llythrennedd digidol
- yr angen i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r mwyaf o angen, gan gynnwys pobl â lefel isel o sgiliau, oedolion di-waith a'r rhai sydd bellaf oddi wrth ddysgu
- yr egwyddor y dylai dysgu alluogi oedolion i ffynnu, nid goroesi yn unig, drwy gyfranogi ar hyd eu hoes.
- pwysau cyllido ar y sector a'r angen ma ddarpariaeth gynaliadwy a theg ledled Cymru

2.2 Aliniad â *Datganiad o Flaenoriaethau Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Arloesi (2024)*

Mae'r blaenoriaethau strategol yn pwysleisio'r canlynol:

- cynyddu cyfleoedd dysgu hyblyg ar draws darparwyr, yn enwedig llwybrau sy'n ehangu cyfranogiad oedolion ac yn gwella sgiliau sylfaenol
- sicrhau system deg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar leihau bylchau cyrhaeddiad ac ehangu cyfranogiad
- rhoi'r dysgwr yn y canol, gan sicrhau llwybrau hygyrch, gan gynnwys dysgu rhan-amser a dysgu yn y gymuned

¹Mae hyn yn ymwneud â'r adrannau Dysgu Oedolion yn y Gymuned o fewn yr Awdurdodau Lleol a'r Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.

- cryfhau cyfraniad addysg drydyddol i'r economi a'r gymdeithas, yn enwedig drwy gydweithio â chyflogwyr, cymunedau ac asiantaethau cyhoeddus

2.3 Gweledigaeth Medr ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) yn rhan greiddiol o system addysg drydyddol Cymru – yn gydlynol, yn gymunedol, yn hyblyg a chyfartal – ac yn anelu i:

- alluogi oedolion i fanteisio ar gyfleoedd ail gyfle a dysgu gydol oes
- cynorthwyo oedolion i ddatblygu sgiliau addysg sylfaenol a hunanhyder
- cryfhau cydlyniant cymunedol, llesiant ac ymgysylltiad dinesig drwy ddysgu
- sicrhau y gall dysgwyr symud ymlaen yn ddi-dor i addysg bellach, prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith, gwirfoddoli a chyflogaeth

Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfuniad o uchelgeisiau a geir ym mholisi 2017 a'r blaenoriaethau strategol.

3. Trosolwg o'r Ddarpariaeth

Gall rhaglenni Dysgu Oedolion yn y Gymuned greu profiad cadarnhaol ac effeithiol i bob dysgwr. I gyflawni hyn, gellir cymryd y camau canlynol:

Canllawiau: Rhaid i ddarparwyr flaenoriaethu anghenion, dyheadau a llesiant dysgwyr, gyda chefnogaeth canllawiau a chynghor hygyrch, cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ddysgu. Yn rhan o hyn, rhaid i ddarparwyr drafod yr holl opsiynau dysgu addas â'r dysgwr i sicrhau mai Dysgu Oedolion yn y Gymuned yw'r ddarpariaeth fwyaf priodol yn unol ag amgylchiadau unigol y dysgwr, ei gymhwysedd a'i nodau dilyniant.

Hygyrchedd: Dylai cyrsiau fod ar gael yn hawdd i bob dysgwr, gan gynnwys rhai ag anableddau, rhwystrau ieithyddol, neu anghenion dysgu a gofynion cymorth eraill.

Hyblygrwydd: Mae gan oedolion amserlenni prysur, felly mae'n hanfodol cynnig opsiynau dysgu hyblyg, fel dosbarthiadau nos neu benwythnos, modiwlau i'w cwblhau ar eu cyflymder eu hunain, a chysiau ar-lein.

Amgylchedd Cefnogol: Mae creu awyrgylch croesawgar a chefnogol yn helpu dysgwyr i deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus. Mae hyn yn cynnwys rhoi anogaeth, adborth adeiladol a chyfleoedd am gefnogaeth gan gymheiriaid.

Dull Cyfannol: Sicrhau ymgysylltiad llawn drwy deilwra cymorth i fodloni anghenion dysgu amrywiol. Wrth weithio tuag at gyfranogiad cynhwysol, cydnabod ei bod hi'n bosib y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai unigolion.

Perthnasedd: Dylai cynnwys y dysgu fod yn berthnasol i ddiddordebau personol, proffesiynol a chymunedol y dysgwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod y deunydd yn ystyrlon ac yn berthnasol i'w bywydau.

Rhyngweithio: Mae dulliau addysgu rhyngweithiol, fel trafodaethau grŵp, gweithgareddau datrys problemau, a phrosiectau cydweithredol, yn helpu i gynnal diddordeb y dysgwyr ac annog cyfranogiad gweithredol.

Cymhwyso'n Ymarferol: Ar gyrsiau, dylid pwysleisio dysgu ymarferol, drwy brofiad sy'n galluogi dysgwyr i gymhwyso sgiliau a gwybodaeth newydd yn sefyllfaoedd y byd go iawn. Gallai hyn gynnwys gweithdai, efelychiadau, a phrosiectau cymunedol.

Ymglymiad Cymunedol: Gall cynnwys y gymuned yn y broses ddysgu greu ymdeimlad o berthyn ac o bwrpas. Gallai hyn gynnwys partneriaethau â sefydliadau lleol, prosiectau gwasanaeth cymunedol, a gweithgareddau dysgu sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae hyn yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chreu clymau cymunedol.

Gwelliant Parhaus: Bydd gwerthuso a diweddarau cyrsiau yn rheolaidd yn seiliedig ar adborth ac anghenion newidiol yn helpu i sicrhau bod y profiad dysgu yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Dysgu Gydol Oes: Hyrwyddo diwylliant o ddysgu gydol oes lle nad oes neb yn rhy hen i (ail)gychwyn a lle mae dysgwyr yn cael cefnogaeth i dyfu a datblygu dros amser. Mae hyn yn cynnwys cynnig amrywiaeth o gyrsiau a gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer gwahanol ddiddordebau a lefelau sgiliau.

Llwybrau Dilyniant: Mae sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r ystod lawn o gyfleoedd dilyniant sydd ar gael ar draws y system addysg drydyddol yn eu hannog i barhau i ddysgu ac yn eu helpu i osod targedau tymor canolig a hirdymor. Dylai darparwyr weithio tuag at hyn drwy gryfhau trefniadau cydweithio a datblygu dulliau cyffredin o fapio darpariaeth a llwybrau, gan gynnwys ymgorffori sgiliau hanfodol (sylfaenol) mewn cyrsiau a gweithgareddau dysgu thematig. Bydd y camau hyn yn helpu dysgwyr i ddeall sut y gallant symud ymlaen rhwng gwahanol gymwysterau, sectorau a lefelau astudio, gan gefnogi datblygu ethos gwirioneddol o ddysgu gydol oes.

Mae'r uchod yn bodloni polisi 2017 a gofynion blaenoriaeth strategol ar gyfer angen lleol a hyblygrwydd.

4. Cymhwysra dysgwyr

I fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen, rhaid i unigolion:

- fyw yn gyfreithlon yng Nghymru; a
- bod yn 19 oed neu'n hŷn.²

Ystyri'r bod unigolion yn anghymwys os ydynt, ar adeg ymgeisio:

- dan 19 oed; neu
- yn mynychu addysg uwch neu addysg bellach amser llawn; neu
- yn derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad neu Lwfans Cynhaliaeth Addysg; neu
- ar gwrs Dysgu Seiliedig ar Waith a gyllidir gan Medr; neu
- yn wladolyn tramor anghymwys.

Er bod Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer dysgwyr 19 oed a hŷn, mewn amgylchiadau penodol gellir cefnogi dysgwyr 16-18 oed drwy ACL os

² Bydd y maen prawf oedran yn cael ei ddilysu wrth ddechrau'r cwrs.

mai dyna'r ddarpariaeth fwyaf priodol ar gyfer eu hamgylchiadau unigol. Ystyrir achosion o'r fath yn *amgylchiadau eithriadol* a rhaid eu hasesu fesul achos.³

5. Cynnwys y rhaglen

Dylid cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, a sefydliadau cymunedol mewn darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Rhaid i ddarparwyr:

- gynnal asesiadau o anghenion y gymuned;
- cyd-ddylunio darpariaeth â phartneriaid cymunedol;
- sicrhau cysondeb â Gweledigaeth Medr ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Dylai partneriaethau roi'r flaenoriaeth i ddarpariaeth mewn meysydd/ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf am sgiliau, yn seiliedig ar ddata lefel Awdurdod Lleol⁴ ar:

- oedolion heb gymwysterau; ac
- oedolion islaw Lefel 2.

Dylid blaenoriaethu'r canlynol wrth ddyrannu cyllid:

- sgiliau addysg sylfaenol (llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol)⁵;
- sgiliau cyflogadwyedd;
- y rhai sydd bellaf i ffwrdd o ddysgu ac sydd â'r angen mwyaf i ddysgu;
- ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- modelau darparu cydweithredol.

Rhaid i bob cwrs ACL gynnwys llwybrau dilyniant clir i:

- raglenni ACL pellach; neu
- gyfleoedd dysgu ffurfiol pellach; neu
- hyfforddiant galwedigaethol; neu
- rhaglenni cyflogadwyedd.

Mae'r uchod wedi'u nodi'n benodol fel blaenoriaethau ym mholisi 2017 ac mewn adolygiadau ACL dilynol.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned gefnogi datblygiad y Gymraeg fel sgîl yn y gweithle, a hyrwyddo'r defnydd o addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg⁶ yn unol â nodau [Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg](#). Yn benodol, rhaid i ddarparwyr: 'datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle'.

³ Ceir rhagor o fanylion am yr egwyddorion, yr eithriadau, a'r disgwyliadau diogelu sy'n berthnasol i ddysgwyr 16–18 oed yn Atodiad A.

⁴ Gweler [Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: 2024](#).

⁵ Rhaid i'r broses hon gynnwys trefniadau i gynnal Asesiad Cychwynnol a Diagnostig o fewn y maes pwnc sgiliau sylfaenol penodol ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n derbyn darpariaeth Sgiliau Hanfodol Cymru.

⁶ Darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw addysg neu hyfforddiant a ddarperir, naill ai'n rhannol neu'n llawn, drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys addysgu, asesu a chefnogi dysgwyr.

Rhaid i Ddarparwyr greu galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy greu ethos lle gall dysgwyr ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â'r Gymraeg ym mhob amgylchedd cymdeithasol a dysgu, a rhaid ichi gynllunio'n weithredol am y canlynol:

- a) i fwy o ddysgwyr astudio a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- b) i fwy o ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac yn gymdeithasol.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr ACL gael strategaeth cyfrwng Cymraeg gyfredol sy'n ymdrin yn benodol â'r ddarpariaeth dysgu, gan alluogi dysgwyr i barhau â'u sgiliau Cymraeg. Dylai'r strategaeth hefyd ddangos sut maent yn cyfrannu at Cymraeg 2050; mae hyn yn ychwanegol at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

6. Gofynion cyflwyno data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro canlyniadau cyflawni a pherfformiad rhaglenni Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Bydd y dull hwn yn disodli'r defnydd blaenorol o Dystysgrifau Gwariant.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Telerau ac Amodau Grant* blyneddol, rhaid i ddarparwyr gyflwyno data rheolaidd a chywir ar y canlynol:

- cofrestru a chyfranogiad
- demograffeg dysgwyr
- cyfraddau cadw a deilliannau
- cyrchfan dysgwyr ar ddiwedd y rhaglen

Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion cenedlaethol ar gyfer setiau data cadarn.

Mae Llawlyfr Cefnogi Defnyddwyr LLWR⁷ yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academiaidd gyfredol.

O ran codau Rhaglen Maes Dysgu (LP74), mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol:

- a) Os yw'r ddarpariaeth yn Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU), rhaid defnyddio'r cod Addysg Gyffredinol Ran-amser berthnasol.
- b) Os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â chymhwyster achrededig, a ddynodwyd yn gymwys ar gyfer cyllid cyhoeddus gan Gymwysterau Cymru⁸, rhaid defnyddio'r cod Galwedigaethol Rhan-amser sy'n berthnasol i'r Maes Pwnc Sector (SSA).
- c) Os yw'r ddarpariaeth yn asesadwy ond na ddarperir cymhwyster llawn (e.e. ar gyfer unedau Agored Cymru) rhaid dilyn dull tebyg i bwynt b) uchod.
- d) Os yw'r ddarpariaeth yn ddysgu na ellir ei asesu, dylid defnyddio'r cod Cyffredinol Rhan-amser sy'n berthnasol i'r Maes Pwnc Sector perthynol.

Ceir hyd i'r rhestr lawn o godau rhaglen yn **Atodiad A**.

⁷ Gweler [Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru \(LLWR\)](#).

⁸ Gweler [Cymwysterau yng Nghymru](#).

7. Monitro ac archwilio

Bydd monitro ac archwilio yn chwarae rhan allweddol er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn modd cyson ac yn helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

7.1 Dull monitro

Canolbwyntir ar yr agweddau canlynol wrth fonitro:

- cydymffurfio â'r fanyleb hon; a
- deilliannau dysgu'r rhaglen.

Cyflawnir hyn drwy fonitro diwedd blwyddyn ac ymarfer paru data ar gyfer rhaglenni ACL.

7.2 Cydymffurfio â manyleb y rhaglen

Bydd Medr yn defnyddio'r data a gyflwynir drwy'r LLWR i fonitro cydymffurfiaeth â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys:

- monitro bod y codau rhaglen cywir (LP74) yn cael eu defnyddio; a
- monitro'r setiau data gweithgaredd i sicrhau bod gofynion cyflenwi yn cael eu bodloni.

7.3 Deilliannau dysgu

Adroddir ar ddeilliannau gweithgareddau dysgu ACL drwy fesurau deilliannau dysgwyr Medr, a byddant wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau ar ddeilliannau dysgwyr a gyflwynir i bartneriaethau ACL.

Mae dilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig wrth werthuso darpariaeth y rhaglen. Mae Medr yn parhau i ddatblygu ei adroddiadau ar ddilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn seiliedig ar ddata cysylltiedig, a bydd adroddiadau ar y rhaglen yn cael eu hymgorffori yn y mesurau hyn yn y dyfodol.

8. Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr: buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

9. Atodiadau

A. Amgylchiadau eithriadol i ddysgwyr 16-18 oed

Pwrpas pennaf Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) yw cefnogi dysgwyr **19 oed a hŷn**. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau prin a phenodol, gellir cefnogi dysgwyr 16-18 oed drwy ACL os mai dyna yw'r ymateb mwyaf priodol a chymesur i'w hanghenion unigol. Diffinnir achosion o'r fath fel amgylchiadau *eithriadol*.

Egwyddorion

Mae amgylchiadau eithriadol nodweddiadol yn cynnwys:

- Angen addysgol heb ei fodloni yn unman arall
 - Er enghraifft, gallai fod ar unigolyn ifanc angen cwrs neilltuol (fel iaith arbenigol, sgiliau technoleg digidol neu bwnc galwedigaethol) nad yw'n cael ei gynnig mewn colegau neu yn y chweched dosbarth lleol.
- Gofynion cymorth arbenigol
 - Os gall y lleoliad ACL ddarparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer anabledd, anhawster dysgu, neu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol eraill nad ydynt ar gael mewn darpariaeth brif ffrwd.
- Amgylchiadau personol eithriadol
 - Er enghraifft, adleoli, dyletswyddau gofalu, neu amgylchiadau bywyd amrywiol sy'n golygu mai ACL yw'r dewis mwyaf ymarferol neu gefnogol.

Nid yw amgylchiadau eithriadol yn berthnasol lle bo modd ymdrin yn ddigonol ag anghenion addysgol, cymorth neu bersonol dysgwr drwy:

- Ail-ymgysylltu â dysgu, lle mae person ifanc wedi gadael yr ysgol yn gynnar neu mewn perygl o ddod yn NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) ac y gellir ei gefnogi drwy:
 - Twf Swyddi Cymru⁺ : Fel rhan o'r Gwarant i Bobl Ifanc, mae'n cynnig hyfforddiant, datblygiad sgiliau a chymorth cyflogadwyedd unigoleddig er mwyn helpu pobl ifanc i ennill cymwysterau a phrofiad a all arwain at gyflogaeth neu addysg bellach ystyrlon.
 - Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: fel adnodd allweddol arall sy'n gweithredu ar y cyd â'r Gwarant i Bobl Ifanc, mae'n cefnogi pobl ifanc 16–18 oed sydd mewn perygl o beidio â throsglwyddo'n gadarnhaol i fydd addysg neu gyflogaeth.
- Fel rhan o ymgysylltiad teuluol neu gymunedol, fel dysgu rhwng y cenedlaethau, lle bydd rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn dysgu ar y cyd, sy'n rhan o:
 - Ysgolion Bro: yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu gweithredir ysgolion fel rhan allweddol o'r gymuned leol, gan gynnig cyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer dysgu oedolion, llesiant, chwarae, chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau cymunedol eraill.

Gwybodaeth Dechnegol

O safbwynt technegol LLWR, asesir Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) fel LP17 = 30. Gan hynny, yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27, ni fydd darparwyr a gyllidir gan Medr yn gallu cael cyllid ar gyfer dysgwyr 16-18 oed y mae eu cofnodion yn cael eu cyflwyno gyda LP17 = 30, onid oes amgylchiadau eithriadol berthnasol fel yr amlinellwyd uchod.

Bydd gwerth blynyddol unrhyw raglenni ACL a gyflwynir ar gyfer dysgwyr 16-18 oed yn cael ei osod ar sero oni phennir gwerth 'ECF' i'r maes LP51 yn yr LLWR. Bydd defnyddwyr yn cael gwybod am hyn drwy sylw yn yr Adroddiad ar Gynodeb o'r Data cyfatebol (AB neu CLG) a fydd ar gael ar blatfform LLWR Inform.

Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cymhwysedd yn cael ei wirio cyn cyflwyno'r data gofynnol drwy'r LLWR, gan ddefnyddio'r gwerth LP51 dynodedig 'ECF' (Cyllid Amgylchiadau Eithriadol).

Proses Benderfynu

Mae'n ofynnol i ddarparwyr wneud penderfyniadau ar sail unigol, a lle bo'n addas, ar y cyd ag awdurdodau lleol neu'r bartneriaeth ehangach. Mae'n hanfodol i ddarparwyr gadarnhau bod yr holl opsiynau dysgu amgen wedi'u gwerthuso a'u trafod â'r dysgwr, gan sicrhau bod ACL yn cyd-fynd ag amgylchiadau, cymhwysedd ac amcanion dilyniant penodol y dysgwr.

Mae'n hanfodol i ddarparwyr weithredu mesurau diogelu addas i ddysgwyr 16-18 oed sy'n cael mynediad i ACL. Mae hyn yn cynnwys sicrhau goruchwyliaeth briodol, cynnal asesiadau risg, a chadw at safonau statudol.

Er mwyn bodloni gofynion cyllido a data, os cyflwynir dysgwyr gyda'r gwerth ECF ar LP51, mae'n ofynnol i ddarparwyr gadw tystiolaeth glir i gyfiawnhau eu penderfyniadau. Gall Medr ofyn am y dystiolaeth hon i ddibenion monitro neu archwilio a rhaid ei storio'n ddiogel a sicrhau ei bod ar gael yn rhwydd yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

B. Codau Cyfeiriadur Rhaglen

Addysg Gyffredinol Ran-amser

Maes Pwnc Sector (SSAs)	Teitl y Rhaglen	Cod y Rhaglen
0	TGAU Ailsefyll Mathemateg	0001A02P
0	TGAU Ailsefyll Saesneg	0001B02P
0	TGAU Ailsefyll Cymraeg (laith Gyntaf)	0001C02P
95	Gweithgareddau Ymgysylltu	9500AXXP
0	TGAU Dysgu	0001A02S

Rhan-amser Galwedigaethol

Maes Pwnc Sector (SSAs)	Teitl y Rhaglen	Cod y Rhaglen
1.1	Meddygaeth a deintyddiaeth	0101XXXV
1.2	Nyrsio a phynciau a galwedigaethau sy'n berthynol i feddygaeth	0102XXXV
1.3	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	0103XXXV
1.4	Gwasanaethau cyhoeddus	0104XXXV
1.5	Datblygiad a lles plant	0105XXXV
2.1	Gwyddoniaeth	0201XXXV
2.2	Mathemateg ac ystadegau	0202XXXV
3.1	Amaethyddiaeth	0301XXXV
3.2	Garddwriaeth a choedwigaeth	0302XXXV
3.3	Gofal anifeiliaid a milfeddygaeth	0303XXXV
3.4	Cadwraeth amgylcheddol	0304XXXV
4.1	Peirianeg	0401XXXV
4.2	Technolegau gweithgynhyrchu	0402XXXV
4.3	Gweithrediadau trafnidiaeth a chynnal a chadw	0403XXXV
5.1	Pensaernïaeth	0501XXXV
5.2	Adeiladu	0502XXXV
5.3	Cynllunio trefol, gwledig a rhanbarthol	0503XXXV
6.1	Ymarferwyr TGCh	0601XXXV
6.2	TGCh i Ddefnyddwyr	0602XXXV
7.1	Manwerthu a chyfanwerthu	0701XXXV
7.2	Warysau a dosbarthu	0702XXXV
7.3	Mentrau gwasanaeth	0703XXXV
7.4	Lletygarwch ac arlwyio	0704XXXV
8.1	Chwaraeon, hamdden ac adloniant	0801XXXV
8.2	Teithio a thwristiaeth	0802XXXV
9.1	Celfyddydau perfformio	0901XXXV
9.2	Crefftai, y celfyddydau creadigol a dylunio	0902XXXV
9.3	Y cyfryngau a chyfathrebu	0903XXXV
9.4	Gwasanaethau cyhoeddi a gwybodaeth	0904XXXV
10.1	Hanes	1001XXXV
10.2	Archaeoleg a gwyddorau archaeolegol	1002XXXV
10.3	Athroniaeth	1003XXXV
10.4	Diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol	1004XXXV

Maes Pwnc Sector (SSAs)	Teitl y Rhaglen	Cod y Rhaglen
11.1	Daearyddiaeth	1101XXXV
11.2	Cymdeithaseg a pholisi cymdeithasol	1102XXXV
11.3	Gwleidyddiaeth	1103XXXV
11.4	Economeg	1104XXXV
11.5	Anthropoleg	1105XXXV
12.1	Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant Ynysoedd Prydain	1201XXXV
12.2	Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliannau eraill	1202XXXV
12.3	Ieithyddiaeth	1203XXXV
13.1	Addysgu a darlithio	1301XXXV
13.2	Cymorth dysgu uniongyrchol	1302XXXV
14.1	Sgiliau byw'n annibynnol (Cymedrol)	1401AXXV
14.1	Sgiliau byw'n annibynnol (Dwys)	1401BXXV
14.1	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)	1401CXXV
14.1	Addysg sylfaenol i oedolion	1401DXXV
14.1	Sylfeini ar gyfer dysgu a bywyd	1401XXXV
14.2	Paratoi am Fwyd a Gwaith	1402AXXV
15.1	Cyfrifeg a chyllid	1501XXXV
15.2	Gweinyddu	1502XXXV
15.3	Rheoli busnes	1503XXXV
15.4	Marchnata a gwerthu	1504XXXV
15.5	Y gyfraith a gwasanaethau cyfreithiol	1505XXXV

Rhan-amser Cyffredinol

Maes Pwnc Sector (SSAs)	Teitl y Rhaglen	Cod y Rhaglen
1	Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	0100XXXG
2	Gwyddoniaeth a Mathemateg	0200XXXG
3	Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	0300XXXG
4	Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu	0400XXXG
5	Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	0500XXXG
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	0600XXXG
7	Manwerthu a Mentrau Masnachol	0700XXXG
8	Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	0800XXXG
9	Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a Chyhoeddi	0900XXXG
10	Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	1000XXXG
11	Gwyddorau Cymdeithasol	1100XXXG
12	Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	1200XXXG
13	Addysg a Hyfforddiant	1300XXXG
14	Sgiliau byw'n annibynnol (Cymedrol)	1401AXXG
14	Sgiliau byw'n annibynnol (Dwys)	1401BXXG
14	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)	1401CXXG
14	Addysg sylfaenol i oedolion	1401DXXG
14	Paratoi am Fwyd a Gwaith	1402AXXG
15	Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	1500XXXG

C. Canllawiau ar Ddyrannu'r Ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i Feysydd Pwnc Sector (SSAs)

SSA 1 - Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal

1.1 Meddygaeth a deintyddiaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau mewn meddygaeth a deintyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys gwneud diagnosis, trin neu atal salwch, afiechyd a niwed arall i'r corff dynol.

Cynnwys posibl y cwrs: Nyrsio deintyddol; Gweithiwr iechyd proffesiynol technoleg ddeintyddol; Orthodonteg; Tocsicoleg feddygol ac offthalmoleg; Deintyddiaeth gyn-glinigol a chlinigol; Meddygaeth gyn-glinigol a chlinigol.

1.2 - Nyrsio a phynciau a galwedigaethau sy'n berthynol i feddygaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau nyrsio a phynciau a galwedigaethau eraill sy'n berthynol i ddeintyddiaeth. Nid yw hyn yn cynnwys astudiaethau a sgiliau sy'n gysylltiedig â iechyd a gofal cymdeithasol, gan fod y rhain wedi'u cynnwys yn SSA 1.3.

Cynnwys posibl y cwrs: Aciwbigo; Anatomeg; Ymarferydd ambiwlans; Gwyddorau clywedol a llafar; Therapi cyflenwol; Therapiau cyfannol; Hypnotherapi; Technoleg feddygol; Bydwreigiaeth; Nyrsio; Maeth ar gyfer iechyd; Parafeddyg; Patholeg; Ffarmacoleg; Fferylliaeth; Ffisioleg; Fflebotomi; Triniaethau esthetig llawfeddygol; Tocsicoleg (ac eithrio tocsicoleg feddygol).

1.3 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau iechyd, lles a gofal cymdeithasol cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys iechyd a diogelwch, gwaith cymdeithasol a chymorth cyntaf. Nid yw hyn yn cynnwys astudiaethau a sgiliau sy'n ymwneud â iechyd a lles cyffredinol plant, gan fod y rhain wedi'u cynnwys yn SSA 1.5, na chwaraeon ac ymarfer corff a ddefnyddir i wella iechyd a lles sydd wedi'u cynnwys yn SSA 8.1.

Cynnwys posibl y cwrs: Gwasanaethau gofal; Gweithiwr gofal; Gwaith cymunedol; Cwnsela; Cymorth cyntaf; Y person cyntaf i gyrraedd y lleoliad; Iechyd a diogelwch; Iechyd a gofal cymdeithasol; Ymarferydd iechyd; Gofal iechyd; Addysg iechyd; Gwaith iechyd meddwl; Gwasanaethau cymdeithasol personol; Gwaith cymdeithasol; Gwaith neu wasanaethau ieuenctid.

1.4 - Gwasanaethau cyhoeddus

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau ar gyfer darparu gwasanaethau sector cyhoeddus. Nid yw hyn yn cynnwys addysg a gynhwysir yn SSA 13 na Chyfiawnder Ieuenctid a gynhwysir yn SSA 15.5.

Cynnwys posibl y cwrs: Gwasanaethau ambiwlans; Gwasanaethau llywodraeth ganolog a lleol; Glanhau mewn lleoliadau sector cyhoeddus; Goruchwyliaeth drws; Gwasanaethau brys; Diogelwch a gwasanaethau tân; Gwasanaethau carchardai; Gwasanaethau amddiffynnol; Gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys tai; Gwasanaethau diogelwch; Gwasanaethau mewn lifrai gan gynnwys y lluoedd arfog a gwasanaethau'r heddlu; Rheoli gwastraff mewn lleoliadau sector cyhoeddus.

1.5 - Datblygiad a lles plant

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau mewn datblygiad plant ac iechyd a lles cyffredinol plant cyn oed ysgol a babanod. Nid yw hyn yn cynnwys astudiaethau a sgiliau sy'n ymwneud ag addysg i blant oed ysgol sydd wedi'u cynnwys yn SSA 13 a Chyfiawnder Ieuencid sydd wedi'i gynnwys yn SSA 15.5.

Cynnwys posibl y cwrs: Gofalu am fabanod a phlant; Gofal plant; Datblygiad plant; Addysg y blynyddoedd cynnar; Rhianta; Gwaith chwarae.

SSA 2 – Gwyddoniaeth a Mathemateg

2.1 - Gwyddoniaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau ym maes gwyddoniaeth, modelau ac egwyddorion gwyddonol, wedi'u hategu gan arsylwi, arbrofi a mesur.

Cynnwys posibl y cwrs: Seryddiaeth; Gwyddoniaeth gymhwysol; Biocemeg; Bioleg; Bioffiseg; Biotechnoleg; Botaneg; Cemeg; Hinsoddeg; Gwyddor amgylcheddol; Epidemioleg; Gwyddoniaeth fforensig; Gwyddor bwyd; Geneteg; Daeareg; Meteoroleg; Gwyddor defnyddiau; Microbioleg; Bioleg foleciwlaidd; Gwyddorau eigion; Ffiseg; Seicoleg; Gwyddor planhigion; Gwyddonydd ymchwil; Technegydd gwyddoniaeth; Gwyddor y gofod; Swoleg.

2.2 - Mathemateg ac ystadegau

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau mewn mathemateg ac ystadegau. Mae hyn yn cynnwys mesur, priodweddau a pherthnasoedd meintiau a setiau, gan ddefnyddio rhifau a symbolau.

Cynnwys posibl y cwrs: Swyddogaethau a graffiau; Mathemateg bellach; Mathemateg; Ystadegau.

SSA 3 - Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid

3.1 - Amaethyddiaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau ffermio ac amaethyddiaeth ar dir neu yn y dŵr. Mae hyn yn cynnwys tyfu pridd, tyfu cnydau, bridio a magu da byw a physgod.

Cynnwys posibl y cwrs: Peiriannau amaethyddol a gardd; Amaethyddiaeth; Gwyddorau amaethyddol; Dyframaethu; Gwasgaru gwrtaith; Rheoli pysgodfeydd; Rheoli tir neu gefn gwlad; Peirianneg a thechnoleg y tir; Rheoli da byw; Ffermio cymysg; Rheoli plaladdwyr.

3.2 - Garddwriaeth a choedwigaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau tyfu ffrwythau, llysiau, blodau, planhigion addurnol a gerddi. Mae hyn yn cynnwys plannu, tyfu, cynnal a chadw a rheoli coedlannau, coedwigoedd a thirweddau.

Cynnwys posibl y cwrs: Garddwriaeth amwynder; Coedyddiaeth; Blodeuwriaeth; Coedwigaeth; Garddwriaeth tirwedd; Garddwriaeth cynhyrchu; Gwaith ar goed.

3.3 - Gofal anifeiliaid a milfeddygaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau arsylwi, gwneud diagnosis a thrin salwch, afiechyd neu niwed mewn anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau a sgiliau sy'n ymwneud ag anifeiliaid a gofal, maeth, trin a rheoli anifeiliaid.

Cynnwys posibl y cwrs: Gofal a lles anifeiliaid; Gofalu ac astudio anifeiliaid sw; Ffarieraeth; Tacluso anifeiliaid; Marchogaeth a gofalu am geffylau (gan gynnwys ceffylau rasio); Rheoli plâu; Meddygaeth filfeddygol a nyrsio.

3.4 - Cadwraeth amgylcheddol

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau rheoli, diogelu a chynaliadwyedd adnoddau naturiol a'r amgylchedd.

Cynnwys posibl y cwrs: Cadwraeth; Ymgynghori a rheolaeth ar gadwraeth; Ecoleg; Cadwraeth amgylcheddol; Rheoli amgylcheddol; Gwyddor amgylcheddol; Cynaliadwyedd.

SSA 4 - Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu

4.1 - Peirianeg

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau dylunio, datblygu, gweithgynhyrchu a gweithio peiriannau, prosesau a systemau. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i brosesau a systemau.

Cynnwys posibl y cwrs: Peirianeg awyrfod; Peirianeg modurol; Seilwaith Cyfathrebu; Peirianeg electronig; Peirianeg nwy; Peirianeg gyffredinol; Technolegau trosglwyddo gwybodaeth; Cynnal a chadw trydanol a dosbarthiad trydan; Peirianeg fecanyddol; Echdynnu mwynau; Peirianeg lyngesol, Cynnal gweithrediadau peirianeg; Peirianeg prosesau ac ynni; Peirianeg cynhyrchu a gweithgynhyrchu; Gwasanaethu; Peirianeg trosglwyddo; Weldio.

4.2 – Technolegau gweithgynhyrchu

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau gwneud neu brosesu deunydd neu gynnyrch crai a thechnolegau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu bwyd a gwelliannau i brosesau a systemau ond nid yw'n cynnwys gwyddor bwyd a gynhwysir yn SSA 2.1 a pheirianeg cynhyrchu a gweithgynhyrchu gan fod y rhain wedi'u cynnwys yn SSA 4.1.

Cynnwys posibl y cwrs: Technoleg awyrfod; Technoleg fodurol; Technoleg haenau; Dylunio a thechnoleg (cynhyrchion electronig, cynhyrchion graffeg, technoleg deunyddiau gwrthiannol, systemau a rheolaeth, technoleg tecstilau); Cydosod cynnyrch electronig; Gweithgynhyrchu bwyd a diod; Biotechnoleg ddiwydiannol; Gweithgynhyrchu (cerameg; dillad; esgidiau; celfi; gwydr; gemwaith; lledr; cynnyrch optegol; deunydd pecynnu; papur; duroedd; haenau arwyneb; tecstilau); Gweithrediadau gweithgynhyrchu; Prosesau gweithgynhyrchu; Technoleg forwrol; Technoleg deunyddiau; Meteleg; Technoleg mwynau; Gosod a chynnal a chadw peiriannau; Argraffu; Polymerau; Tecstilau a chlustogwaith.

4.3 - Gweithrediadau trafnidiaeth a chynnal a chadw

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau gweithredu a chynnal a chadw dulliau trafnidiaeth a dulliau o symud pobl, anifeiliaid a nwyddau. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i brosesau a systemau.

Cynnwys posibl y cwrs: Awyrennu; Cyfarwyddyd gyrru; Ymdrin â theithwyr awyr; Morwrol; Cerbydau modur; Prosesu teithwyr awyr; Astudiaethau defnyddwyr ffyrdd; Gyrrwr trafnidiaeth; Cynnal a chadw trafnidiaeth; Gweithrediadau trafnidiaeth.

SSA 5 - Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig

5.1 – Pensaernïaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau dylunio, rheoli a deall strwythurau a chreu ardaloedd awyr agored fel parciau neu erddi.

Cynnwys posibl y cwrs: Pensaernïaeth; Damcaniaeth dylunio pensaernïol; Technoleg bensaernïol; Dylunio'r dirwedd; Dylunio technegol (amgylchedd adeiledig); Lluniadu technegol (amgylchedd adeiledig).

5.2 - Adeiladu

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau mewn crefftau adeiladu. Mae hyn yn cynnwys mesur meintiau, peirianeg gwasanaethau adeiladu, peirianeg sifil a'r amgylchedd adeiledig.

Cynnwys posibl y cwrs: Gwasanaethau adeiladu; Peirianeg gwasanaethau adeiladu; Gosod brics; Gwaith coed a saernïaeth; Peirianeg sifil; Cladin; Adeiladu; Cynllunio adeiladu; Gosod a chynnal trydanol; Ffenestri a gwydro; Cael gwared â gwastraff peryglus; Technegydd gwresogi; Adeiladu priffyrdd; Gosod deunydd inswleiddio; Gosod a chynnal a chadw; Peintio ac addurno; Gweithrediadau stancio; Plastro; Gwaith plymio; Mesur meintiau; Toi; Rheoli safle; Peiriannau mawr arbenigol; Gwaith maen; Gwaith syrfêwr; Crefftau adeiladu cynaliadwy wrth adeiladu isadeiledd ac aradeiledd; Teilsio; Gweithrediadau twnelu.

5.3 - Cynllunio trefol, gwledig a rhanbarthol

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau cynllunio trefol, gwledig a rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys yr ymadwaith rhwng defnydd tir yn y dref ac yn y wlad, a'r defnydd o dir ar gyfer adeiladu.

Cynnwys posibl y cwrs: Cynllunio (rhanbarthol, gwledig, trefol); Dylunio seilwaith; Deddfwriaeth gynllunio; Mannau byw cynaliadwy.

SSA 6 – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

6.1 – Ymarferwyr TGCh

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau dylunio, datblygu, profi, gosod, cynnal a chadw, cefnogi a rheoli technolegau, pensaernïaeth, systemau a rhwydweithiau digidol a gwybodaeth (caledwedd a meddalwedd). Mae hyn yn cynnwys rheoli, cynnal a dadansoddi data.

Cynnwys posibl y cwrs: Codio; Cyfrifiadureg; Cyfrifiadura; Seiberddiogelwch; Gwasanaethau busnes digidol; Data; Technoleg gwybodaeth; Rhwydweithio; Rhaglennu; Datblygu meddalwedd.

6.2 – TGCh i Ddefnyddwyr

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer bywyd, astudio ac yn y gweithle.

Cynnwys posibl y cwrs: Sgiliau digidol; Diogelwch y rhyngrwyd; Defnyddio a dehongli data ar gyfer bywyd, astudio ac yn y gweithle; Defnyddio systemau TG.

SSA 7 - Manwerthu a Mentrau Masnachol

7.1 - Manwerthu a chyfanwerthu

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau gwerthu nwyddau wrth fanwerthu neu gyfanwerthu.

Cynnwys posibl y cwrs: Gwasanaethau cwsmeriaid; Manwerthu ffasiwn a dillad; Manwerthu; Gweithrediadau manwerthu; Manwerthu; Marchnata gweledol.

7.2 - Warysau a dosbarthu

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau storio, dosbarthu a symud nwyddau fel arfer i'w hailwerthu neu i'w cyfanwerthu, ymhlith dibenion eraill.

Cynnwys posibl y cwrs: Rheoli dosbarthiad; Gweithrediadau a gwasanaethau dosbarthu; Gweithrediadau dosbarthu a warws; Allforio; Mewnforio; Logisteg; Pecynnu; Gweithrediadau storio.

7.3 - Mentrau gwasanaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau wrth ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr, cwsmeriaid neu fusnesau yn y sector preifat.

Cynnwys posibl y cwrs: Gwaith barbwr; Gwasanaethau harddwch; Glanhau; Gwasanaethau cyfleusterau; Trin gwallt; Gosod a rheoli eiddo; Celfyddyd coluro; Colur ar gyfer perfformiadau'r cyfryngau; Tylino; Ewinedd; Triniaethau esthetig nad ydynt yn llawfeddygol; Tyllu; Tatwio; Wigiau.

7.4 - Lletygarwch ac arlwy

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau lletygarwch ac arlwy mewn amgylcheddau domestig neu ddiwydiannol, a phrosesau datblygu bwyd a diod. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau a sgiliau paratoi bwyd a maeth.

Cynnwys posibl y cwrs: Gwasanaethau llety; Gwasanaeth bar; Addurno teisennau; Arlwy; Gwasanaeth bwyd a diod; Hylendid bwyd; Paratoi a choginio bwyd; Paratoi bwyd a maeth; Gweithrediadau swyddfa flaen; Gwasanaeth lletygarwch; Coginio rhwyngwladol; Gweithredu safleoedd trwyddedig.

SSA 8 - Hamdden, Teithio a Thwristiaeth

8.1 - Chwaraeon, hamdden ac adloniant

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau mewn gweithgareddau corfforol cystadleuol ac anghystadleuol, gan gynnwys gweithgareddau y cymerir rhan ynddynt er budd ffitrwydd a llesiant. Nid yw hyn yn cynnwys celf a chrefft a gynhwysir yn SSA 9.2.

Cynnwys posibl y cwrs: Arwain gweithgareddau; Hyfforddi; Ymarfer corff cymunedol; eSports; Gweithiwr ymarfer corff a ffitrwydd proffesiynol; Hamdden ac adloniant; Achubwr bywydau; Maeth ar gyfer ymarfer corff neu weithgaredd corfforol; Hyfforddiant personol; Addysg gorfforol; Diogelwch gwylwyr; Gwyddor neu astudiaethau chwaraeon.

8.2 - Teithio a thwristiaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau sy'n ymwneud â theithio a thwristiaeth gan gynnwys deall y sector a'i effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Cynnwys posibl y cwrs: Criw caban awyr; Ecodwristiaeth; Atyniadau ymwelwyr a threftadaeth; Teithio hamdden a busnes; Gweithrediadau cyrchfan; Gweithrediadau taith; Gwasanaethau teithio.

SSA 9 - Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a Chyhoeddi

9.1 - Celfyddydau perfformio

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau yn y celfyddydau perfformio gan gynnwys perfformio a theori, hanes, rheoli a chynhyrchu celfyddydau perfformio.

Cynnwys posibl y cwrs: Coreograffi; Perfformiadau syrcas; Dawns; Drama; Perfformiadau ffilm a'r cyfryngau; Cerddoriaeth; Cynhyrchu cerddoriaeth a theatr; Perfformiad Theatr Cerdd; Technoleg cerddoriaeth; Lleferydd; Astudiaethau theatr.

9.2 - Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau ym maes crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, gan gynnwys cyd-destunau diwylliannol a hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys celfyddyd gain a ffotograffiaeth a hanes, rheoli a chynhyrchu crefftau a gweithiau celf creadigol.

Cynnwys posibl y cwrs: Celf a dylunio; Cerameg; Dylunio dillad neu ffasiwn; Crefftwr; Crefftau creadigol; Celfyddyd gain; Cyfathrebu graffeg; Dylunio graffeg; Hanes celf; Darlunio; Dylunio mewnol; Dylunio amlgyfrwng; Ffotograffiaeth; Dylunio tecstilau; Dylunio tri dimensiwn.

9.3 - Y cyfryngau a chyfathrebu

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau mewn cyfathrebu rhwng pobl drwy gyfryngau darlledu, sinema a'r wasg. Mae hyn yn cynnwys astudio'r cyfryngau, diwydiant, datblygiadau arloesol technegol a rôl cynulleidfaoedd.

Cynnwys posibl y cwrs: Technegau animeiddio; Cyfathrebu; Cynhyrchu digwyddiadau; Ffilm; Recordio ffilm a sain; Newyddiaduraeth; Astudiaethau'r cyfryngau; Technegau delweddau symudol; Cyfarwyddo a chynhyrchu ffilm; Cynhyrchu radio; Effeithiau gweledol a chlywedol.

9.4 - Gwasanaethau cyhoeddi a gwybodaeth

Disgrifiad: Astudiaethau a sgiliau mewn gwasanaethau cyhoeddi a gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu torfol, astudiaethau a dogfennau cyhoeddusrwydd.

Cynnwys posibl y cwrs: Rheoli gwybodaeth; Gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth; Cyhoeddi.

SSA 10 - Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth

10.1 – Hanes

